

# Therapydd Galwedigaethol Pediatrig

**G06: £36,648 - £39,186**

**Rhan amser 29.6 awr (Cyfnod penodol o flwyddyn)**

**Tŷ Dewi Sant, Ewlo, (gyda gweithio’n hybrid)**

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn ein Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Pediatrig. Mae’r swydd yn cynnwys asesiad arbenigol o blant, pobl ifanc a theuluoedd i nodi eu hanghenion galwedigaethol. Rydym yn canolbwyntio ar gryfderau a galluoedd plant i oresgyn rhwystrau galwedigaethol yng nghyd-destun amgylchedd eu cartref / lleoliad. Rydym yn credu mewn gwrando gweithredol i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau personol y plant / teuluoedd a gofalwyr. Rydym yn cymryd ymagwedd gadarnhaol tuag at risg ac yn tanategu ein penderfyniadau drwy weithio’n agos gyda’r plentyn, person ifanc, teulu ochr yn ochr â’n cydweithwyr o Waith Cymdeithasol ac iechyd. Rydym yn annog a gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn ein hymarferion ac yn cefnogi model neu ymagwedd amgen i drefnu cynlluniau ac ymyraethau personol. Gall yr ymgeisydd llwyddiannus ddisgwyl; goruchwyliaeth glinigol bob 6 wythnos gydag Uwch Therapydd Galwedigaethol, grŵp cyfoedion bob 4 wythnos, mynediad at hyfforddiant mewnol a hyfforddiant arbenigol. Mae gennym hefyd fynediad i’n hystafell hyfforddi i ymarfer gydag offer codi a symud yn gorfforol, yn aml gyda Therapyddion Galwedigaethol eraill. Mae gennym werthusiadau blynyddol sy’n canolbwyntio ar 4 piler ymarfer ac yn annog adlewyrchu a DPP. Mae gennym dîm croesawgar lle yr anogir ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau clinigol o fewn amgylchedd tîm cefnogol.

Fel un o’r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym yn cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynnwys Gwyliau Banc, yn cynyddu i 41 diwrnod • Mynediad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy’n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd gwaith-bywyd • Gweithio’n hybrid • Mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth gweithwyr am ddim • Cynllun Beicio i’r Gwaith • Gostyngiadau ar draws masnachwyr y DU.

Yn y swydd hon gallwch elwa o’n polisi oriau gweithio'n hyblyg. Mae sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:
Paula Curtis, Rheolwr Tîm, e-bost: paula.curtis@flintshire.gov.uk